



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Sarah Hodges, Cangen Strategaeth Wastraff
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
3^{ydd} Llawr, Adain y De
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

Ein cyf: WPPCR1
Eich cyf: WG18016

Date: 20fed Mehefin 2013

Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Rhaglen Atal Gwastraff

Sylwadau Cyffredinol

O 1af Ebrill, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r gweithgaredd a nodir yn y Rhaglen Atal Gwastraff.

Bydd angen parhaus i fonitro tueddiadau gwastraff yng Nghymru. Mae gennym nifer o wahanol setiau data ynghylch gwastraff y gellid eu defnyddio o bosibl mewn rôl fonitro. Efallai hefyd y bydd angen casglu data ynghylch gwastraff sy'n deillio o'r sectorau masnachol a diwydiannol yng Nghymru o bryd i'w gilydd. Byddai gwybodaeth am gynhyrchu a rheoli gwastraff yng Nghymru y tu hwnt i'r hyn y byddem fel arfer yn ei gasglu fel rheolydd gwastraff. Yn y gorffennol, rydym wedi cynnal arolygon sgil-gynhyrchion gwastraff ar ran Llywodraeth Cymru ac os bwriedir i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal arolygon yn y dyfodol, yna byddai'n ddefnyddiol ymgysylltu â ni'n gynnar.

Cwestiynau ynghylch Gwastraff y Cartref

Cwestiwn Ymgynghori HW1:

Rydym yn taflu llawer o wastraff bwyd bob blwyddyn. Mae'n cyfrif am tua un rhan o bump o'r holl wastraff cartref yng Nghymru. Mae cartref cyffredin yn taflu gwerth tua £480 o fwyd bob blwyddyn, ac mae hyn yn codi i £680 ar gyfer cartrefi â phlant. A fyddai gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am leihau eich gwastraff cartref? Mae angen i ni gyfathrebu â phawb ynglŷn â sut gallant leihau eu gwastraff bwyd hefyd. Beth yn eich barn chi yw'r ffyrdd gorau i ni wneud hynny? Er enghraifft, papurau newydd lleol, o berson rydych yn ei adnabod yn eich cymuned, drwy glybiau megis clybiau chwaraeon.

Efallai y byddwch am ystyried bod awdurdodau lleol yn ymgymryd â chyfathrebu ynghylch gwastraff bwyd yn y cartref. Gall hyn fod yn opsiwn gan fod ganddynt ddyletswydd i gasglu gwastraff a gynhyrchir gan gartrefi a gofynion i leihau gwastraff bioddiraddadwy i safleoedd tirlenwi drwy Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Mae ganddynt hefyd rôl ychwanegol i gynyddu

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

faint o wastraff a ailgylchir gan gynnwys gwastraff bwyd drwy gompostio neu dreuliad anaerobig o dan Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011. Mae Cynghorau'n defnyddio cyfryngau lleol eisoes ar gyfer eu cyhoeddiadau eu hunain i ymgysylltu â'u preswylwyr a hefyd yn uniongyrchol drwy eu gwasanaethau casglu gwastraff. Mae brandio a negeseuon cyson megis rhai'r ymgyrch 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff' wedi profi'n effeithiol yn y gorffennol. Gallai sefydliad fel WRAP neu Craff am Wastraff Cymru chwarae rôl ddefnyddiol wrth gefnogi awdurdodau lleol yn hyn o beth. Gallai defnyddio hyrwyddwyr lleol hefyd atgyfnerthu'r neges.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried annog hyn ymhellach gan y gall y Cynghorau elwa o arbedion ariannol os yw trigolion yn lleihau faint o wastraff a gynhyrchir ganddynt.

Gallai awdurdodau lleol hefyd edrych ar eu darpariaeth gwasanaeth gwastraff a faint sy'n cymryd rhan drwy annog gwahanu gwastraff bwyd yn y cartref a'i gasglu ar wahân (h.y. heb ei gymysgu â gwastraff gwyrdd).

Cwestiwn Ymgynghori HW2:

Mae llawer o ffyrdd y gallwn leihau faint o wastraff rydym i gyd yn ei gynhyrchu. Mae'n fwy na dim ond ailgylchu, mae llawer o ffyrdd eraill fel:

- *Meddwl am y deunydd pacio rydym yn ei brynu pan fyddwn yn siopa.*
- *Dim ond prynu'r bwyd sydd ei angen arnom mewn gwirionedd.*
- *Trwsio eitemau neu eu cynnal a'u cadw, yn hytrach na dim ond eu taflu i ffwrdd.*
- *Pan na fyddwn eisiau rhywbeth mwyach, gallwn ei drosglwyddo i rywun arall, neu ei werthu.*

A fyddai gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am y ffyrdd y gallwch leihau eich gwastraff? Sut y gallwn roi gwybod i chi ac eraill am y camau gweithredu y gellir eu cymryd? A allwch awgrymu unrhyw ffyrdd y gallwn gyfathrebu ag eraill i'w gwneud yn fwy ymwybodol?

Gall targedu gwybodaeth yn y manau lle mae pobl yng Nghymru yn siopa, yn arbennig trwy archfarchnadoedd a manau gwerthu eraill, hyrwyddo'r neges lleihau gwastraff ac ailddefnyddio. Dylai hyrwyddo cyfleoedd i drosglwyddo nwyddau i'w hailddefnyddio ymhellach (gan awdurdodau lleol fel uchod) a chan y sector elusennol hefyd gynyddu cyfranogiad.

Mae'n aml yn anodd iawn cael nwyddau trydanol wedi'u trwsio oherwydd prinder gweithwyr atgyweirio medrus a chost uchel atgyweirio o gymharu â phrynu'n newydd. Yn gyffredinol, nid yw nwyddau trydanol yn cael eu cynhyrchu gydag atgyweirio neu hirhoedledd mewn golwg. Yng nghydestun cyfundrefn cyfrifoldeb cynhyrchwyr, gall fod yn bosibl cyflwyno newidiadau i annog hyn, yn enwedig o ystyried y gyfran gymharol isel o nwyddau trydanol sy'n cael eu defnyddio neu sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru.

Cwestiwn Ymgynghori HW3:

Mae deunydd pacio'n bwysig i ddiogelu nwyddau a sicrhau eu bod yn cael eu danfon mewn cyflwr da, ond weithiau mae defnyddwyr yn teimlo bod nwyddau â gormod o ddeunydd pacio amdanynt; ac

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

fel arfer bydd deunydd pacio ar ffurf cymysgedd o ddeunyddiau megis plastig, cardbord ac alwminiwm, a all fod yn anodd ei wahanu a'i waredu'n briodol.

A oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallwn fynd i'r afael â hyn? Beth fyddai'n eich helpu i wneud mwy i leihau'r math hwn o wastraff?

Y Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer sicrhau y defnyddir yr isafswm angenrheidiol o ddeunydd pacio. Cânt eu gorfodi gan adran Safonau Masnach yr awdurdod lleol, ond nid oes llawer o'r cyhoedd yn ymwybodol ohonynt. Pe bai'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o ofynion y rheoliadau, gallai arwain at ganlyniadau a fyddai'n codi proffil y mater hwn.

Un o'r meysydd anoddaf ym maes deunydd pacio yw cydau plastig wedi'u leinio â ffoil a ddefnyddir ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes, cawl a sawsiau gan amlaf yn lle tuniau neu jariau gwydr. Er bod hyn yn arwain at wastraff pecynnau llai o faint ar gyfer y pacwyr a'r dosbarthwyr, sydd felly yn lleihau maint eu rhwymedigaeth o dan reoliadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr dros ddeunyddiau pecynnu, mae'r atal gwastraff hwn yn arwain at becynnau nad oes modd eu hailgylchu. Ni wyddom am astudiaethau asesu cylch bywyd i gyfiawnhau'r symudiad hwn (er ei bod yn bosibl bod yna well canlyniad amgylcheddol o ran gostwng allyriadau cludiant o ganlyniad i'r pwysau llai). Gellid ystyried tystiolaeth o'r fath, pan fydd ar gael, i weld a oes mecanwaith ar gyfer mireinio'r gyfundrefn cyfrifoldeb cynhyrchwyr gan eu hannog i beidio â defnyddio deunyddiau na ellir eu hailgylchu. Dylid nodi hefyd er y gall y defnydd o ddeunydd pacio cyfansawdd greu problemau wrth geisio nodi opsiynau ailgylchu, yn aml bydd y pecynnau hyn wedi'u cynllunio fel hyn er mwyn sicrhau bod y cynnyrch yn cyrraedd y farchnad mewn cyflwr da, sy'n atal creu gwastraff. Dylid bod yn ofalus rhag ymwrthod â defnyddio deunydd pacio cyfansawdd os oes ganddo bwrpas dilys.

Cwestiynau am Wastraff Diwydiannol a Masnachol

Cwestiwn Ymgynghori IC1:

Dyma'r targedau atal gwastraff arfaethedig ar gyfer y ffrydiau gwastraff diwydiannol a masnachol: Gostyngiad cyffredinol o 1.4% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff diwydiannol, gyda thargedau penodol ar gyfer y sectorau blaenoriaeth unigol

- *Gweithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel.*
- *Gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur.*
- *Gweithgynhyrchu cemegau, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol.*
- *Gweithgynhyrchu bwydydd.*

Gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn i 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7 ar gyfer gwastraff masnachol. Caiff cynllun cyflawni ei ddatblygu i gyflawni yn erbyn y targedau hyn. A ydych yn cytuno â'r targedau a gynigir? Rhowch eich rhesymau.

Pa dargedau y dylid eu cynnig ar gyfer y sectorau diwydiant pwysicaf? Rhowch eich rhesymau.

Rydym yn cytuno â'r cynigion i weithredu targedau lleihau gwastraff ar draws pob gwastraff

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English



diwydiannol a masnachol. Mae'n anodd darparu targedau penodol ar gyfer sectorau heb ddealltwriaeth fanwl o'r potensial ar gyfer y gweithfeydd diwydiannol unigol. Ni cheir y lefel hon o fanylion yn y cynllun sector, felly rydym yn teimlo bod targedau cyffredinol yn ddigonol at ddibenion y cynllun. Fodd bynnag, mae angen sylw pellach i weld a yw'r targedau hyn yn gyraeddadwy.

Mae gan yr holl sectorau â blaenoriaeth a nodwyd gennych safleoedd oddi mewn iddynt sy'n cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR). Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn trawsosod gofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yng nghyfraith y DU. Mae'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl weithgareddau a restrir gymryd camau i atal cynhyrchu gwastraff yn unol â Chyfarwyddeb 2008/98/EC (Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig). Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei gyflwyno drwy amodau trwydded EPR ar gyfer y safleoedd hynny sydd o fewn y cwmpas.

Gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rywfaint o waith Effeithlonrwydd Adnoddau gyda'r sector trwyddedig yn 2008-2010. Er bod cyfleoedd clir ar gyfer atal gwastraff mewn rhai sectorau, adroddodd rhai diwydiannau fod llawer o'r cyfleoedd ar gyfer lleihau gwastraff wedi cael sylw, a bod eu prosesau mor effeithlon ag yr oedd y dechnoleg presennol yn caniatáu. Felly, efallai y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r diwydiannau blaenoriaeth i sicrhau bod unrhyw dargedau a osodir yn gyraeddadwy.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'ch swyddogion i adolygu sut y mae cydymffurfiaeth ag amodau trwydded yn cael ei sicrhau. Lle nodwyd gwelliannau posibl, byddwn yn ceisio eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw gofynion y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn berthnasol i bob busnes ar draws y sectorau â blaenoriaeth. Prin yw dylanwad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y safleoedd hynny sy'n gweithredu o dan drothwyon y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol. Gall y rhain fod yn destun rheoleiddio gan awdurdodau lleol neu y tu allan i gwmpas y rheoliadau'n gyfan gwbl.

Ymddengys bod y ffocws ar eco-gynllunio, modelau busnes effeithlon o ran adnoddau a chadwyni caffael a chyflenwi gwyrdd yn feysydd priodol, ond nid oes unrhyw arwydd sut y llwyddir i gael diwydiant a masnach yn gyffredinol i fabwysiadu'r egwyddorion hyn.

Cwestiwn Ymgynghori IC2:

Rydym wedi disgrifio'r sectorau busnes pwysicaf a meysydd ar gyfer gweithredu.

(a) A ydych yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn? Rhowch eich rhesymau.

(b) A oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried yn flaenoriaeth? Pam mae'n bwysig?

(c) A ydych yn cytuno â'n hymagwedd arfaethedig o weithredu gwirfoddol i ddechrau, gyda mesurau gorfodol yn cael eu hadolygu yn y tymor hwy? Rhowch eich rhesymau.

Mae'n glir bod modd cyflawni buddiannau posibl gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Adroddodd arolwg sgil-gynhyrchion gwastraff Masnachol a Diwydiannol yng Nghymru 2007, a

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

reolwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fod 57% o wastraff diwydiannol a 51% o wastraff masnachol a gynhyrchwyd gan gwmnïau sy'n cyflogi hyd at 20 o bobl, yn cael ei reoli drwy dirlenwi.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli'r arolwg diweddaraf ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff yn 2012. Cyhoeddir yr adroddiad ym mis Ebrill 2014, a bydd yn darparu darlun mwy diweddar. Dylid ystyried cynnal arolygon gwastraff diwydiant a masnach ar sail statudol. Dyna yw'r sefyllfa yn yr Alban lle mae arolwg blynyddol gorfodol yn cael ei gynnal ar ffurf arolwg drwy'r post. Ar hyn o bryd, mae arolygon sgil-gynhyrchion gwastraff yng Nghymru yn cael eu cynnal ar sail wirfoddol ac yn cael eu cynnal ar ffurf arolygon dros y ffôn ynghyd ag ymweliadau safle er mwyn sicrhau y ceir sampl gynrychioliadol. Byddai sail statudol ar gyfer yr arolygon hyn yn hwyluso casglu data'n fwy effeithlon e.e. drwy gynnal yr arolwg drwy'r post neu lenwi ffurflen electronig. Bu'r cyrff a ragflaenodd Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymwneud â busnesau bach a chanolig ar faterion gwastraff a'r sector llety a bwyd, ond dim ond y rheini sydd o fewn cwrmpas y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Efallai y byddwn yn gallu helpu Llywodraeth Cymru i gynnal arolygon gyda'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

Cwestiwn Ymgynghori IC3:

Cynigir y bydd Llywodraeth Cymru a manwerthwyr yn adeiladu ar lwyddiant codi tâl am fapiau siopa a gweithredu ledled y DU drwy Ymrwymiad Courtauld a mentrau eraill, gan arwain at fanwerthwyr yn datblygu camau ar y canlynol:

- *Gwella effaith amgylcheddol eu portffolio cynnyrch drwy ddylanwadu ar dyfwyr, proseswyr, gwneuthurwyr a dosbarthwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.*
- *Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir drwy eu gweithgarwch eu hunain.*
- *Cefnogi mentrau cenedlaethol a lleol megis cynlluniau ailddosbarthu bwyd.*
- *Darparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am berfformiad amgylcheddol eu cynnyrch.*
- *Darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gamau ymarferol y gall defnyddwyr eu cymryd i leihau effaith eu cynnyrch wrth eu defnyddio ac ar ddiwedd eu hoes.*

Pa gamau a mentrau pellach y gellir eu cymryd i wella ein rhaglen waith presennol, ac i ategu'r camau uchod?

Rydym yn llwyr gefnogi'r rhain ac unrhyw fesurau eraill sy'n atal gwastraff yn y man cynhyrchu.

Cwestiwn Ymgynghori IC4:

Sut y gall Llywodraeth Cymru annog busnesau i ymwneud ag eco-arloesedd?

Credwn fod nifer o fesurau y gellid eu cyflwyno i yrru eco-arloesedd. Gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno gofynion gorfodol i yrru eco-arloesedd ac atal gwastraff. Mae Erthygl 8 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn caniatáu i aelod-wladwriaethau gyflwyno gofynion cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig, naill ai drwy lwybrau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol. Mae cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr eraill yn y DU (ar gyfer Pecynnu, Cerbydau Diwedd Oes, Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a Batris) wedi arwain at gynyddu cyfraddau ailgylchu a hefyd wedi arwain at well dylunio i leihau gwastraff.

Gellid ystyried hefyd ofynion y Cyfarwyddebau Eco Ddylunio. Dylid ystyried pennu mabwysiadu

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English



egwyddorion eco-arloesedd fel rhagofyniad ar gyfer unrhyw gymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth.

Cwestiwn Ymgynghori IC5:

Ceir adolygiad o'r dystiolaeth ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar y rhwystrau atal gwastraff a mesurau sy'n benodol i'ch sector yn:

<http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=17499>

A ydych yn cytuno â'r dystiolaeth hon ar gyfer eich sector yng Nghymru? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?

Pa gymorth sydd ei angen ar eich busnes i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau a pham?

Rydym yn cytuno bod yr amrywiaeth o dystiolaeth sydd ar gael yn darparu gwybodaeth ar gyfer rhan fwyaf o sectorau.

Cwestiwn Ymgynghori IC6:

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gellir dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad busnes er mwyn i fusnesau allu dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Rydym yn defnyddio ymagwedd fframwaith cymwyseddau i wneud hyn.

A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau'n ddefnyddiol i feincnodi perfformiad a bod yn sail i unrhyw ymyriadau? Os nad ydych, beth yw'r rheswm am hynny?

A ydych yn cytuno bod fframwaith cymwyseddau yn ymagwedd ddefnyddiol i fod yn sail i raglen cymorth busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y dyfodol ac i dargedu hyn? Os nad ydynt, beth yw'r rheswm am hynny?

Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am sut y bydd y fframwaith cymwyseddau'n cael ei ddefnyddio i helpu i atal gwastraff ar draws pob sbectrwm busnes. Byddai'n darparu arf defnyddiol ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n barod i neilltuo amser ar gyfer atal gwastraff, ond efallai na fyddai'n cyrraedd y cwmnïau hynny sy'n anoddach i ymgysylltu â nhw. Yn ein profiad ni, y mentrau sy'n arwain at effeithlonrwydd adnoddau mewn busnesau yng Nghymru yw'r rhai lle y rhagwelwyd ac y cyflawnwyd arbedion ariannol. Yn aml, mae adegau pan nad yw arbedion ariannol cysylltiedig yn cael eu sicrhau. Felly, yn yr achosion hyn efallai y bydd angen rheoleiddio.

Datblygodd Asiantaeth yr Amgylchedd ddull asesu yn seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau. Cafodd y system hon ei threialu yn 2012 i gyd-fynd ag adroddiadau metrig o'r Mynegai Effeithlonrwydd Adnoddau Ffisegol (REPI). Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus i rannu canlyniadau'r treial hwn gyda Llywodraeth Cymru. Dylid nodi fodd bynnag fod y system hon wedi'i datblygu i'w defnyddio yn y sector trwyddedig er mwyn helpu i gyflawni gofynion rheoliadol. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn y sector trwyddedig yn fwy o faint na busnesau bach a chanolig, a byddem yn disgwyl bod ganddynt systemau ar waith i reoli gwastraff ac adnoddau.

Cwestiynau am Wastraff Adeiladu A Dymchwel

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English



Cwestiwn Ymgynghori CD1:

(a) A ydych yn cytuno â'r rhaglen amlinellol ar wastraff adeiladu a dymchwel? Rhowch eich rhesymau.

(b) A ddylai unrhyw beth arall gael ei gynnwys yn y rhaglen? Esboniwch beth, a manteision hynny.

Mae'n anodd rhoi sylwadau manwl ar y rhaglen amlinellol ar gyfer y sector Adeiladu a Dymchwel gan fod y wybodaeth ar y cynigion a gynhwysir yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r camau gweithredu amlinellol a nodir yn yr ymgynghoriad, er eu bod yn cynrychioli meysydd ar gyfer gwaith pellach yn hytrach na chamau i'w cymryd. Nodwyd yr holl feysydd hyn yn 'Adeiladu'r Dyfodol', yr arolwg o sgil-gynhyrchion Adeiladu a Dymchwel 2004-05. Dylai'r camau hyn gael eu hailasesu gan ddefnyddio canlyniadau arolwg sgil-gynhyrchion gwastraff 2012.

Gall cyflwyno Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yng Nghymru helpu i annog atal gwastraff yn y sector adeiladu yng Nghymru, ond bydd yn anodd asesu'r effeithiau posibl hyd nes y bydd manylion y rheoliadau wedi'u cwblhau.

Cwestiynau cyffredinol a thechnegol eraill

Cwestiwn Ymgynghori G1: Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y rhaglen hon, ac mae wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon fel rhan o'r ymgynghoriad. A ydych yn cytuno â'i ganfyddiadau a'i gasgliadau? Rhowch eich rhesymau.

Rydym wedi darparu sylwadau ar wahân ar yr arfarniad cynaliadwyedd.

Cwestiwn Ymgynghori G2:

(a) A ydych yn cytuno ag ymagwedd Llywodraeth Cymru at dorri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd, gan gydnabod y cyfle i leihau costau i fusnesau a chostau yn y cartref wrth wneud hynny?

(b) Os nad ydych, pa ddewisiadau eraill rydych yn eu cynnig? Rhowch eich rhesymau, a disgrifiwch sut y byddech yn cynnig mesur llwyddiant.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru i geisio torri'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a chynhyrchu gwastraff yn gadarn ar y cyfan. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau lle bynnag y bo'n bosibl, fod y targedau lleihau absoliwt arfaethedig yn gyraeddadwy ac ar yr un pryd yn cyflawni'r gostyngiad gofynnol yn yr adnoddau a ddefnyddir.

Er bod polisiâu economaidd ar waith i geisio osgoi cwtogi economaidd, mae'n amlwg bod rhywfaint o gwtogi ar y gweill (gostyngiadau mewn gweithgaredd yn y sector diwydiannol ynghyd â mwy o weithgaredd yn y sectorau masnachol). Mae risg bosibl y digwydd gostyngiadau gwastraff cynhyrchu diwydiannol o ganlyniad i'r newidiadau yn lefelau gweithgarwch diwydiannol ac mae'n werth bod yn ymwybodol na fyddai hyn yn gynaliadwy heb newid ymddygiad neu newid proses barhaol i gyd-fynd â hynny.

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

E-bost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Mae'n anoddach targedu gwastraff cynhyrchu masnachol oherwydd maint cymharol y gwastraff a gynhyrchir yn unigol gan y cwmnïau llai ac o ganlyniad, mae'r arbedion ariannol ar gyfer pob cwmni o bosibl yn fach. Daeth yr eithriadau i hyn drwy'r sector manwerthu bwyd o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu. Mae yna ddulliau o ymdrin ag aildefnyddio deunydd pacio cludo ar waith y gellid eu cyflwyno i sectorau masnachol eraill a sectorau manwerthu eraill.

O ran mesur llwyddiant yn gyffredinol, gallai'r ffocws fod ar well data. Gall fod yn ddefnyddiol archwilio'r opsiwn o greu arolygon blynyddol o gynhyrchu gwastraff ar sail statudol fel y gwneir ar hyn o bryd yn yr Alban yn hytrach na pharhau â'r arolygon gwirfoddol a all olygu gorfod defnyddio llawer o adnoddau.

Yr eiddoch yn gywir,

Gareth Lewis
Ymgynghorydd Gwastraff
Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Ffôn/Tel 01248 484151

Ffacs/Fax 01248 670561

Ebost/Email gareth.e.lewis@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.naturalresourceswales.gov.uk

Llwyn Brain, Ffordd Penlan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4DE

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English